# PA MOR DDIOGEL YW NOFIO GWYLLT YN NYFFRYN GWY?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn ystyried beth yw nofio gwyllt a ble mae'n digwydd yn yr ardal leol ac yn Nyffryn Gwy. Maent yn cwestiynu honiadau bod nofio gwyllt yn cael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd a'n lles meddyliol a chorfforol. Mae dysgwyr yn archwilio llygredd dŵr ac achosion posibl ohono yn Nyffryn Gwy. Byddant yn samplu ac yn profi dŵr afonydd neu lynnoedd lleol er mwyn canfod pa mor lân ydyw ac yn ysgrifennu Trydar/X i ddweud wrth eraill am eu canfyddiadau. Mae dysgwyr yn edrych yn agosach ar sut mae afonydd a llynnoedd yn cael eu llygru. Trwy wneud ymchwil, maent yn rhoi cyngor i eraill sy'n dymuno nofio mewn afonydd neu lynnoedd lleol. Mae dysgwyr yn archwilio llygredd plastig a chemegol. Maent yn edrych yn fanwl ar wrtaith a llygredd carthion, fel y gallant chwarae rôl o fewn dadl ddosbarth ynghylch sut y gellid lleihau llygredd yn yr afon Gwy.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Dulliau o gymryd samplau dŵr – poteli plastig bach, glân.
Dulliau o brofi dŵr am nitradau, amonia a ffosffadau – bydd stribedi profi dŵr mewn tanciau pysgod yn addas ar gyfer gwneud hyn.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## WHAT IS WILD SWIMMING?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw yn ystyried beth yw nofio gwyllt a ble mae'n digwydd yn yr ardal leol ac yn Nyffryn Gwy, yn y dasg hon. Byddant yn archwilio honiadau bod nofio gwyllt yn cael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd a'n lles meddyliol a chorfforol.

### Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl yw nofio gwyllt? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble mae nofio gwyllt yn digwydd? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pwy sy'n cymryd rhan mewn nofio gwyllt? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- A ydych chi wedi nofio yn y gwyllt? Pam? Pryd a ble y digwyddodd hyn?
- Pa mor ddiogel yw nofio gwyllt? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth efallai yw peryglon nofio yn y gwyllt?

### Sgrîn 4

Dangoswch y clip fideo o nofio gwyllt ar yr afon Gwy: Wild Swimming on the River Wye (ychydig dros funud o hyd). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae eich barn am nofio gwyllt wedi newid? Pam?
- Beth ydych chi'n meddwl yw nofio gwyllt 'nawr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

### Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr nad yw nofio gwyllt (neu nofio mewn dŵr agored) yn ddim byd mwy na nofio. Neu yn hytrach, gwneud dim byd mwy na mynd i mewn i ddŵr naturiol sydd heb glorin ynddo. Gall ddigwydd mewn unrhyw dywydd, yn ystod unrhyw dymor ac mae'n galluogi pobl i nofio yng nghanol golygfeydd a thirweddau syfrdanol.

### Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr y gall nofio gwyllt ddigwydd mewn afon, llyn neu yn y môr a gellir ei wneud mewn unrhyw dywydd ac yn ystod unrhyw dymor. Mae'n cynnwys nofio am gyfnodau hir ac am gyfnodau byr, defnyddio llawer o geriach neu ddim geriach o gwbl. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wahaniaethau fyddai nofwyr yn eu profi wrth nofio yn y gwyllt mewn gwahanol fathau o dywydd? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ydych chi'n meddwl yw manteision ac anfanteision nofio yn yr haf a nofio yn y gaeaf?
- Pa geriach ydych chi'n meddwl fyddai eu hangen efallai? Pam? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgrîn 7

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i chwilio am dystiolaeth o nofio gwyllt yn eu hardal leol. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ym mha le neu leoedd allai nofio gwyllt ddigwydd yn lleol, yn eich barn chi? Pam?
- Ym mha le neu leoedd ydych chi'n gwybod bod nofio gwyllt yn digwydd yn lleol? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth allech chi ei weld, sy'n dystiolaeth o nofio gwyllt? Pam?
- Gan ddefnyddio'r map, ble yn union mae nofio gwyllt yn digwydd yn lleol? Rhestrwch y lleoedd hyn.

## Sgrîn 8

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i chwilio am dystiolaeth o nofio gwyllt yn yr ardal leol.

## Sgrîn 9

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried beth wnaethon nhw ei ddarganfod a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa dystiolaeth o nofio gwyllt wnaethoch chi ei darganfod?
- Ble wnaethoch chi ddod o hyd i bobl yn nofio'n wyllt yn lleol? Pam ydych chi'n meddwl eu bod yn nofio yno?
- Pa 'geriach' oedden nhw'n ei wisgo neu'n ei ddefnyddio? Pam ydych chi'n meddwl eu bod yn gwisgo neu'n defnyddio'r 'geriach' hwn?
- Pa mor ddiogel oedd o'n edrych? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 10

Eglurwch wrth y dysgwyr fod gwefan Archwiliwr yr Wy, 'Wye Explorer' (Saesneg yn unig) yn rhestru geriach amrywiol a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer nofio gwyllt. Rhestrir y rhain ar y sgrîn. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl yw Archwiliwr yr Wy (Wye Explorer)? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa rai o'r eitemau hyn fyddai bob amser yn hanfodol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ym mha sefyllfa y gallai fod angen pob un o'r eitemau hyn arnoch chi? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgrîn 11

Eglurwch wrth y dysgwyr fod bodau dynol wedi bod yn nofio yn y gwyllt ers canrifoedd ac y gwelwyd cynnydd mawr mewn nofio gwyllt fel chwaraeon ar ddechrau'r pandemig Covid19. Fodd bynnag, mae nofio gwyllt hefyd yn destun adfywiad oherwydd ei fforddiadwyedd a'i effaith gadarnhaol ar ein hiechyd a'n lles meddyliol a chorfforol.

**Cwestiynau ffocws**

- A ydych chi'n meddwl bod nofio gwyllt yn hawdd ei fforddio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ydych chi'n meddwl yw ystyr yr ymadrodd 'iechyd a lles meddyliol a chorfforol'? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pam y gallai nofio gwyllt gael effaith gadarnhaol ar ein 'hiechyd a lles meddyliol a chorfforol'?

## Sgrîn 12

Eglurwch wrth y dysgwyr fod gwefan Archwiliwr yr Wy (Wye Explorer) yn rhestru rhai o fanteision meddyliol a chorfforol nofio gwyllt. Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu'r dudalen we: Wild Wye Swimming - Wye Explorer (Saesneg yn unig) a darllen y datganiadau yn yr adrannau 'Beth Yw'r Rhestr o Fanteision Meddyliol?' (What Are The List Of Mental Pluses) a 'Beth Am y Corff?' (What About The Body). Yna, trafodwch y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rai o'r datganiadau hyn y gellid eu profi'n wyddonol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa fath o dystiolaeth fyddai ei hangen? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgrîn 13

Rhowch wybod i'r dysgwyr eu bod am wneud ymchwil i ddod o hyd i dystiolaeth sydd unai'n cefnogi neu ddim yn cefnogi'r datganiadau y maent yn eu darllen ar wefan Archwiliwr yr Wy (Wye Explorer) wedi eiddynt ei chyrchu o sgrîn 12: Wild Wye Swimming - Wye Explorer (Saesneg yn unig). Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble byddwch chi'n chwilio am wybodaeth a pham?
- Pa dechnegau chwilio y gallai fod angen i chi eu defnyddio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut byddwch chi'n gwerthuso pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth y byddwch chi'n dod o hyd iddi? Pam ei gwerthuso fel hyn?
- Sut byddwch chi'n ffurfio dolenni â'ch ffynonellau tystiolaeth yn y ddogfen? Pam ei wneud fel hyn? Sut arall allech chi ei wneud?

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dogfen dwy dudalen o hyd sy'n dangos eu canfyddiadau ac sy'n darparu dolenni i'w ffynonellau tystiolaeth.

## Sgrîn 14

Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu dogfen dwy dudalen o hyd gyda dysgwyr eraill a thrafod y cwestiynau canlynol yn eu grŵp.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa dechnegau chwilio oedd fwyaf effeithiol? Pam?
- Pa dystiolaeth wnaethoch chi ddod o hyd iddi ar gyfer pob datganiad?
- Pa mor dda y gwnaeth y dystiolaeth hon gefnogi neu beidio â chefnogi'r syniadau ym mhob datganiad? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut wnaethoch chi werthuso pa mor ddibynadwy oedd y wybodaeth y daethoch o hyd iddi? Pam wnaethoch chi ei gwerthuso fel yna?
- Sut wnaethoch chi gysylltu eich ffynonellau tystiolaeth o fewn y ddogfen? Pam wnaethoch chi ei wneud fel hyn? Sut arall allech chi fod wedi ei wneud?

## Sgrîn 15

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu Wild Wye Swimming - Wye Explorer (Saesneg yn unig) eto, sgrolio i lawr nes dod o hyd i'r 'Map Nofio Basn yr Afon Gwy' (Wye Basin Swim Map). Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae'r 'llecyn nofio' agosaf at y llecyn lle'r ydych chi'n byw?
- Pa mor bell yw'r llecyn hwn? Sut ydych chi'n gwybod? Sut allech chi gyrraedd yno?
- Beth mae'r wefan yn ei ddweud wrthych chi am y llecyn hwn?
- Sawl 'llecyn nofio' sydd yn y rhan o Dirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy sydd yng Nghymru.
- Pa 'lecynnau nofio' eraill sydd gerllaw?

### Sgrîn 16

Gwahoddwch y dysgwyr i roi cynnig ar y cwis ynghylch awgrymiadau ar gyfer nofio'n ddiogel yn y gwyllt.

TASG 2

## PA MOR LÂN YW'R DŴR YN NYFFRYN GWY?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddant yn archwilio llygredd dŵr ac achosion posibl ohono yn Nyffryn Gwy, yn y dasg hon. Byddant yn samplu dŵr afonydd neu lynnoedd lleol er mwyn canfod pa mor lân ydyw, ac yn ysgrifennu Trydar/X i ddweud wrth eraill am eu canfyddiadau.

### Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr mae'n debyg mai'r mater iechyd a diogelwch mwyaf sy'n wynebu nofwyr gwyllt yw ansawdd y dŵr y maent yn nofio ynddo a bod llawer o afonydd yn cael eu heffeithio gan 'lygredd'. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw llygredd, yn eich barn chi?
- Ble ydych chi wedi gweld llygredd? Sut olwg oedd arno?
- O ble daeth y llygredd? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa fathau gwahanol o lygredd ydych chi wedi'u gweld neu glywed amdanynt? Beth ydyn nhw?

## Sgriniau 4-5

Gwahoddwch y dysgwyr i lunio rhestr o eiriau sy'n gyfystyr â llygredd ac i'w teipio yn y blwch a ddarparwyd ar gyfer hyn. Yna, pan mae'r dysgwyr yn clicio ar y sgrîn, datgelir rhai geiriau sy'n gysylltiedig â llygredd, fel y gall y dysgwyr eu cymharu â'u geiriau nhw.

## Sgrîn 6

Ar y sgrin sgrîn, darperir ffotograff o lygredd. Gofynnwch i'r dysgwyr ddisgrifio beth maen nhw'n gallu ei weld a'i deipio yn y blwch.

## Sgrîn 7

Darperir y ddelwedd eto, ond y tro hwn atgoffir y dysgwyr o'r cyfystyron o sgrîn 5 a gofynnir iddynt feddwl yn ôl i'w cyfystyron eu hunain, cyn myfyrio ar eu disgrifiad o'r ddelwedd er mwyn ei wella.

## Sgriniau 8-9

Ar y sgrîn gyntaf, fe geir delwedd arall o lygredd a gofynnir i'r dysgwyr ddisgrifio'r hyn y gallant ei weld. Ar y sgrîn nesaf, gofynnir i'r dysgwyr gymharu eu disgrifiad nhw â disgrifiad pâr arall o ddysgwyr. Yna, dylent fyfyrio ar eu disgrifiad eu hunain er mwyn ei wella.

## Sgrîn 10

Yma, diffinnir llygredd a chyflwynir y term 'llygryddion'. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiwn canlynol a rhestru eu syniadau.

**Cwestiwn ffocws**

- Pa lygryddion ydych chi'n meddwl allai achosi llygredd afon?

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu a darllen yr erthygl papur newydd hon: Concerns over pollution in Wales' rivers - BBC News (Saesneg yn unig). Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r prif bryderon sydd gan bobl am yr afon Gwy?
- Beth sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn?
- Beth sy'n ei gwneud hi'n anodd cadw'r afon yn rhydd o lygredd?
- Beth yw'r heriau sydd yn wynebu'r bobl sy'n gyfrifol am leihau llygredd?

## Sgrîn 12

Ar y sgrîn hon, diffinnir y ddau fath o lygredd afon (afonol) megis sbwriel a chemegol, gan egluro beth yw pob un a sut mae'n mynd i mewn i afonydd.

## Sgrîn 13

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar fap o Dirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble ydych chi'n meddwl y byddech chi'n dod o hyd i'r llygredd mwyaf? Pam?
- Ble ydych chi'n meddwl y byddech chi'n dod o hyd i'r rhan fwyaf o lygredd sbwriel? Pa fathau o sbwriel ydych chi'n meddwl y byddech chi'n dod o hyd iddynt? Pam?
- Ble ydych chi'n meddwl y byddech chi'n dod o hyd i'r llygredd cemegol mwyaf? Pa fathau o lygredd cemegol ydych chi'n meddwl y byddech chi'n dod o hyd iddynt? Pam?

## Sgrîn 14

Ar y sgrîn, cyflwynir rhaglen y Faner Las, gan ddisgrifio beth ydyw. Dywedir hefyd nad oes hyd yma, raglen swyddogol gyfatebol ar gyfer afonydd, ond mae llawer o asiantaethau yn gweithio i wella ansawdd afonydd.

## Sgrîn 15

Yma, cyfeirir at rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn samplu a phrofi dŵr.

## Sgrîn 16

Gwahoddwch y dysgwyr i gyrchu'r dudalen we: Water Watch Wales (Saesneg yn unig). Yna, dywedwch wrthynt am ddilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrîn er mwyn dod o hyd i'r afonydd lleol lle gwyddant bod nofio gwyllt yn digwydd. Yna, gallant drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw ansawdd dŵr yr afonydd nofio gwyllt hyn?
- Ble mae'r afon sydd â dŵr o ansawdd uchel, agosaf at yr ysgol?
- Ble mae'r afon sydd â dŵr o ansawdd gwael, agosaf at yr ysgol?
- Beth ydych chi'n meddwl sy'n gwneud ansawdd dŵr yr afon yn dda?
- Beth ydych chi'n meddwl sy'n gwneud ansawdd dŵr yr afon yn wael?
- Pam ydych chi'n meddwl mai ansawdd y dŵr mewn rhan o bob afon sydd wedi'i brofi ar gyfer y dosbarthu?

## Sgrîn 17

Gofynnwch i'r dysgwyr aros ar y dudalen we: Water Watch Wales (Saesneg yn unig) a dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrîn sgrin i ddod o hyd i'r llynnoedd lleol lle maen nhw'n gwybod bod nofio gwyllt yn digwydd. Yna, i drafod y cwestiynau a ofynnir.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw ansawdd dŵr y llynnoedd nofio gwyllt hyn?
- Pam ydych chi'n meddwl bod cyn lleied o lynnoedd Cymru o safon uchel? Ble mae'r llynnoedd hyn?
- Ble mae'r llynnoedd o ansawdd gwael yng Nghymru? Pam ydych chi'n meddwl eu bod o ansawdd gwael?

## Sgrîn 18

Ar y sgrîn hon, cyflwynir manylion ynghylch yr asesiadau a wneir er mwyn gwirio a yw dŵr yn addas ar gyfer ymdrochi.

## Sgrîn 19

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am fynd at afon neu lyn lleol er mwyn gwirio ansawdd y dŵr ar gyfer ymdrochi. Gwahoddwch nhw i gynllunio beth maen nhw'n mynd i'w wneud trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa samplau dŵr fydd angen i chi eu cymryd?
- O ble fyddwch chi'n cymryd eich samplau dŵr? Pam?
- Sut y byddwch yn dynodi ac yn cofnodi eich safle samplu?
- Pa ddadansoddiadau fydd angen i chi eu gwneud ar eich samplau dŵr?
- Sut arall ydych chi'n mynd i brofi ansawdd y dŵr? Beth fyddwch chi'n edrych amdano? Sut byddwch chi'n cofnodi'r hyn rydych chi'n ei weld neu'n ei arogli?

**N.B.** *Ni fydd y dysgwyr yn gallu profi am facteria gan fod hyn angen labordy masnachol i wneud hyn.*

## Sgrîn 20

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gymryd eu samplau dŵr a gwneud eu harsylwadau.

## Sgrîn 21

Gwahoddwch y dysgwyr i wneud eu dadansoddiadau o'r samplau dŵr. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am ansawdd dŵr eich afon/llyn lleol?
- Pa mor hyderus ydych chi ynghylch eich canlyniadau? Pam?

Gwahoddwch y dysgwyr i ysgrifennu Trydar/X i ddweud wrth eraill am ansawdd ymdrochi yn eu hafon/llyn lleol. Dim ond 280 nod sydd ganddyn nhw i wneud hyn.

TASG 3

# SUT MAE LLYGRYDDION YN MYND I AFONYDD/LLYNNOEDD?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i edrych yn agosach ar sut mae afonydd a llynnoedd yn cael eu llygru. Trwy wneud ymchwil, byddant yn cynnig cyngor i bobl eraill sy'n dymuno nofio mewn afonydd neu lynnoedd lleol.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod angen sylwi ar unrhyw ffynhonnell bosibl o lygredd wrth brofi am ansawdd ymdrochi mewn afonydd/llynnoedd, e.e. ger nentydd, afonydd, allanfeydd dŵr storm, ffermydd, ac ati. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam y gallai nant neu afon sy'n llifo i'r afon/llyn gludo llygryddion, yn eich barn chi?
- Pa fathau o lygryddion y gallai nant neu afon eu cludo? Pam?
- Pam ydych chi'n meddwl y gallai allfa dŵr storm gludo llygryddion?
- Pa fathau o lygryddion y gallai allfa dŵr storm eu cludo? Pam?

## Sgrîn 4

Dangoswch yr animeiddiad a gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa lygryddion ydych chi'n meddwl sydd yn y dŵr ffo o bob ardal? Pam?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i wneud rhywfaint o ymchwil ar-lein er mwyn darganfod y llygryddion sy'n dod o bob math o ddŵr ffo – diwydiannol, amaethyddol, preswyl a ffyrdd.

Gwahoddwch nhw i feddwl...

- Pa beiriant chwilio neu AI fyddwch chi'n ei ddefnyddio? Pam?
- Beth yw'r termau/awgrymiadau chwilio allweddol i'w defnyddio? Beth ydych chi eisiau ei ddarganfod?
- Pa fath o wefannau fydd y rhai gorau i edrych arnynt? Pam?

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr lunio map meddwl i ddangos eu canfyddiadau.

## Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr mai po fwyaf y bydd hi'n bwrw glaw, po fwyaf o ddŵr ffo fydd yn llifo i'r afonydd. Gwahoddwch nhw i ddarllen rhan gyntaf yr erthygl gan Dŵr Cymru - Gorlifoedd Storm Cyfun (CSOs). Yna, gallant drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n digwydd pan fydd gormod o law? Pam?
- Pam fod gan dai newydd bibellau ar wahân ar gyfer carthffosiaeth a dŵr glaw, yn eich barn chi?
- Beth yw anfanteision gorlifoedd storm cyfun (CSOs), yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Dŵr Cymru wedi datblygu Map gorlifoedd storm, sy'n darparu gwybodaeth sydd bron â bod mewn amser real, am weithrediad gorlifoedd storm. Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu'r map a dewis 'gweld ar y map mewn ffenestr newydd'. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae'r man agosaf i'r ysgol, lle mae gorlif storm yn gweithredu ar hyn o bryd? Am faint o amser y mae wedi bod yn gweithredu?
- Dewch o hyd i'r afon agosaf at eich hysgol. Pryd oedd y tro diwethaf i'r gorlif storm ollwng carthion i'r afon ac am faint o amser?
- Sut mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i nofwyr, yn eich barn chi?
- Sut fydd y data gorlif storm hyn yn newid oherwydd newid yn yr hinsawdd, yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr fod llawer o drafod wedi bod yn y wasg yn ddiweddar am garthion gorlif storm mewn dŵr afonydd a dŵr môr. Gwahoddwch nhw i greu Sway er mwyn ateb y cwestiwn:

- Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i rywun sydd eisiau nofio mewn afon/llyn lleol?

Er mwyn cyfeirio eu meddyliau, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- A oes angen i chi wneud mwy o ymchwil ar y pwnc hwn? Os felly, beth sydd angen i chi ei ddarganfod?
- Pa wybodaeth fyddwch chi'n ei chynnwys yn eich Sway? Sut byddwch chi'n cynnwys y wybodaeth hon?
- Pa bropiau a delweddau fyddwch chi'n eu defnyddio ar gyfer eich Sway? Pam?

## Sgrîn 9

Ar y sgrîn hon, darperir cyfarwyddiadau ynghylch creu Sway.

- Mewngofnodwch i'ch cyfrif Hwb, a chael mynediad i Office 365 er mwyn dod o hyd i Sway a'i agor. Neu cliciwch yma i gael mynediad i Sway: https://sway.office.com/ (Saesneg yn unig).
- Cliciwch Creu o'r Newydd (Create new).
- Bydd cerdyn Sway yn ymddangos; nawr ychwanegwch deitl i'ch Sway. Gallech chi ddefnyddio 'prynu bwyd a gynhyrchir yn lleol'.
- Cliciwch ar y Ddelwedd gefndir (Background image). Bydd Sway yn dechrau chwilio am ddelweddau sy'n ymwneud â'ch teitl. Bydd y rhain yn cael eu harddangos ar yr ochr dde. Cliciwch ar y categori sy'n addas i'ch teitl. Dewiswch ddelwedd a'i llusgo a'i gollwng ar eich cerdyn teitl. Gallwch chwilio am fideos yn yr un modd.
- Nawr cliciwch ar Chwarae (Play)... Bydd Sway yn defnyddio algorithmau sy'n seiliedig ar ddylunio graffeg i awgrymu'r ymddangosiad.
- Gallwch ymarfer newid y dyluniad graffeg.
- Cliciwch ar + i ychwanegu delweddau eraill gyda thestun i gynnwys yr hyn rydych chi wedi'i ddarganfod am nofio mewn afon neu lyn lleol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu Sway gyda'r dosbarth.

### Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dosbarth roi adborth ar:

Dau beth oedd yn dda yn y Sway, yn eu barn nhw, gan egluro pam eu bod yn dda.

Un peth a allai fod yn well yn y Sway,  yn eu barn nhw, gan egluro pam y gallai fod yn well.

TASG 4

## SUT GALLWN NI LEIHAU LLYGREDD MEWN AFONYDD/ LLYNNOEDD?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n archwilio llygredd plastig a chemegol. Byddant yn edrych yn fanylach ar wrtaith a llygredd carthion fel y gallant chwarae rôl mewn dadl ddosbarth ar sut y gallwn leihau llygredd yn yr afon Gwy.

### Sgrîn 3

Dangoswch y fideo How did we get to a world full of plastic? - BBC (tua 2 funud o hyd). Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae plastig yn cael ei wneud?
- Pam mae plastigau mor bwysig yn ein bywydau?
- Sut olwg fyddai ar eich byd, heb blastigau?

### Sgrîn 4

Rhannwch y ffeithiau am lygredd plastig a'r amser y mae rhai eitemau'n ei gymryd i bydru. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiwn canlynol.

**Cwestiwn ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod gwahanol eitemau plastig yn cymryd amserau gwahanol i bydru?

### Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod plastig yn torri i lawr yn ronynnau llai o'r enw microplastigau, wrth iddo bydru. Gwahoddwch nhw i ymchwilio ar-lein i ddarganfod mwy am ficroplastigau ac yna anogwch y dysgwyr i ateb y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- O ble mae microplastigau yn dod?
- Pa mor fawr yw microplastigau?
- Ble mae microplastigau i'w cael?
- Pa niwed y gall microplastigau ei wneud?
- Sut allwn ni gael gwared â microblastigau o afonydd/llynnoedd?

Gwahoddwch y dysgwyr i wneud poster digidol i ddangos eu canfyddiadau.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod gyda phartner, y newidiadau y gellid eu gwneud i leihau llygredd plastig...

- gennych chi
- gan eich teulu
- gan eich hysgol?

Yna, dylai'r dysgwyr restru pum newid y gellid eu gwneud er mwyn lleihau llygredd plastig.

Gwahoddwch y dysgwyr i geisio rhoi'r holl newidiadau hyn ar waith ac adrodd yn ôl ar ôl wythnos ynghylch pa mor llwyddiannus y maen nhw wedi bod.

## Sgrîn 7

Ar y sgrîn hon, cyflwynir llygredd cemegol, gan roi tri math a fydd yn cael eu harchwilio yn y sgriniau sydd i ddilyn, sef gwrtaith ar ffermydd, all-lif carthion a gwastraff diwydiannol.

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr fod gwrtaith yn cynnwys cemegau sydd â nitrogen a ffosfforws yn sail iddynt. Mewn afonydd/llynnoedd, mae'r cemegau hyn yn arwain at blymau algaidd (ewtroffeiddio), a all fod yn wenwynig i fywyd gwyllt ac yn niweidiol i bobl. Mae blymau algaidd gwyrddlas yn newid lliw y dŵr, yn ffurfio llysnafedd, yn cynhyrchu blasau ac arogleuon annymunol ac yn gwaethygu ansawdd y dŵr. Gall algâu sy'n pydru achosi disbyddiad ocsigen, ac mae hyn yn gallu achosi i bysgod farw. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam mae pysgod yn marw os nad oes digon o ocsigen mewn dŵr?
- A ydych chi wedi clywed am blymau algaidd gwyrddlas o'r blaen? Os ydych, ym mhle clywsoch chi am hyn?
- Mae blymau algaidd gwyrddlas difrifol yn ymddangos yn flynyddol yn yr afon Gwy. Beth ydych chi'n meddwl y byddai wedi cael ei ysgrifennu ar arwydd rhybudd? Pam?
- Beth sy'n cael ei feio ar hyn o bryd am y blymau algaidd yn yr afon Gwy? Sut ydych chi'n gwybod hyn?

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr y gall llygredd carthion hefyd achosi blymau algaidd enfawr gan ei fod yn cynnwys tua 40% yn fwy o gemegau sy'n seiliedig ar nitrogen na llygredd dŵr ffo amaethyddol.

Mae carthion hefyd yn cynnwys bacteria a all fod yn niweidiol, e.e. E.coli a Streptococci.

Ar y sgrîn, rhestrir y pethau sy'n achosi llygredd carthion. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r prif resymau am lygredd carthion yn Nyffryn Gwy, yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 10

Eglurwch wrth y dysgwyr fod yna lawer o grwpiau sy'n protestio yn erbyn llygru'r afon Gwy, e.e. nofwyr gwyllt, grwpiau genweirio lleol, grwpiau amgylcheddol. Mae'r grwpiau hyn yn beio eraill am y llygredd a'r/neu'r diffyg gweithredu, megis:

- ffermwyr lleol
- Dŵr Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Llywodraethau Cymru a Lloegr.

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am ymchwilio ar-lein i'r mater hwn. Yna, anogwch nhw i ddarganfod mwy am un o'r grwpiau protest neu un o'r grwpiau y maen nhw'n credu sydd ar fai.

Unwaith y byddant wedi cael eu gwybodaeth, byddant yn chwarae rhan y grŵp hwn mewn dadl ddosbarth, er mwyn penderfynu sut y gellir lleihau llygredd yn yr afon Gwy.

## Sgrîn 11

Cyn ymchwilio, gofynnwch i grwpiau o ddysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei wybod yn barod am y grŵp rydych chi'n chwarae ei ran?
- Beth ydych chi'n meddwl mae'r grŵp yn ei gredu?
- Beth maen nhw'n ei wneud er mwyn hyrwyddo eu credoau neu eu tystiolaeth?
- Pa fathau o bobl ydych chi'n meddwl sydd yn y grŵp? Pam?

## Sgrîn 12

Atgoffwch y dysgwyr bod angen iddynt ystyried y canlynol wrth chwilio ar y rhyngrwyd:

*Cyn ymchwilio...*

- Pa dermau chwilio allech chi eu defnyddio? Pa rai yw'r gorau? Pam?
- Pa fath o wefannau fydd orau i edrych arnynt? Pam?

*Wrth asesu gwybodaeth/data...*

- Sut ydych chi'n gwybod bod y wybodaeth/data yn ddibynadwy? Sut allech chi ddarganfod?
- A allai'r wybodaeth/data fod yn unochrog? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Yna, dylent wneud eu hymchwil a pharatoi ar gyfer y ddadl.

## Sgrîn 13

Dywedwch wrth y dysgwyr am gynnal eu dadl ddosbarth ar: Sut gallwn ni leihau llygredd yn yr afon Gwy?

## Sgrîn 14

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw ddefnyddio'r triongl myfyrio i feddwl am sut y gwnaethon nhw baratoi ar gyfer eu dadl a chymryd rhan ynddi.

Gwahoddwch y dysgwyr i lusgo a gollwng y termau a ddarperir i ddangos eu meddyliau ac i ystyried pa strategaethau eraill a ddefnyddiwyd ganddynt ac i gofnodi eu syniadau.